**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Carwyn Jones

15 Ebrill 2024

Annwyl Carwyn

**Dyfodol Dur yng Nghymru – Craffu gan y Pwyllgor**

Diolch am eich ymateb a’r cynnig i ateb cwestiynau penodol neu i ddod i'r Pwyllgor. Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, mae'r Pwyllgor ar hyn o bryd yn gweithio i amserlenni tynn ar y mater hwn, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech ein cynorthwyo yn ein gwaith drwy ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau isod.

A oedd unrhyw ddulliau gweithredu oedd yn arbennig o effeithiol, yn eich barn chi, wrth arwain gwaith ymgysylltu Llywodraeth Cymru â Tata yn ystod eich cyfnod fel Prif Weinidog, yn enwedig yn argyfwng 2016?

Nododd yr Aelodau eich bod, yn ystod yr argyfwng diwethaf, wedi blaenoriaethu ymweld â phencadlys Tata ym Mumbai. Pa effaith rydych chi'n deimlo y cafodd hyn ar ddull gweithredu Tata a'r penderfyniadau a wnaeth? A oes unrhyw beth o'ch dull gweithredu chi y gallai Llywodraeth Cymru ei chymhwyso i'r sefyllfa bresennol, gan gynnwys unrhyw ffyrdd y gallai wneud y gorau o'r cyfleoedd sy'n deillio o flwyddyn Cymru yn India?

A oes unrhyw wersi y gellid eu dysgu o ddulliau gweithreud Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o gydweithio yn argyfwng 2016 y gellid eu cymhwyso i'r sefyllfa bresennol?

Rwy'n ymwybodol mai dyma'r ail argyfwng ariannol difrifol y mae gwaith Tata ym Mhort Talbot, a'r gweithfeydd cysylltiedig, wedi ei wynebu mewn degawd. O gofio eich profiad yn 2016, a ydych chi'n credu bod y cynigion presennol yn addas ar gyfer y dyfodol neu a ydych yn rhagweld y bydd angen cefnogaeth sylweddol pellach ar Tata, gan bwrs y wlad, ar gyfer ei weithrediadau yn Ne Cymru?

Fel y gwyddoch, sefydlwyd Bwrdd Pontio i gefnogi'r bobl, y busnesau a'r cymunedau y mae cynigion Tata yn effeithio arnynt. A oes gennych unrhyw farn ar ba gamau y dylai'r Bwrdd eu blaenoriaethu a sut y gellir cyflawni proses bontio deg?

Byddai gennyf ddiddordeb mawr hefyd mewn unrhyw wersi eraill a ddysgwyd o ymdrin â'r sefyllfa yn 2016 y credwch allai fod yn berthnasol heddiw, neu unrhyw farn arall sydd gennych am ddyfodol Dur Cymru a'r trawsnewid.

Diolch unwaith eto am eich cynnig i helpu gyda'r ymchwiliad hwn. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i adrodd ar y mater brys hwn cyn gynted â phosibl, a fyddech chi'n gallu ymateb erbyn 1 Mai? Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i gyhoeddi eich ymateb mewn papurau ar gyfer ein cyfarfod arfaethedig ar 9 Mai.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg